

Cynhadledd yr Undeb 2014

Cynhelir y gynhadledd hon yng Nghylch y Parchedig Eirian Wyn Lewis eleni, ar y 15fed (Sul), yr 16eg a'r 17eg o Fehefin. Cyflwynir 'Dal dy Dir' ar y nos Sul, am 5, yn Theatr y Gromlech, a gobeithio y cawn drefnu mynd yno yn Gylch. Bydd y gynhadledd ymlaen o 9.15 bore Llun tan ar ôl Oedfa'r weinidogaeth am 6.30 yr hwyr ar y dydd Mawrth, gyda'r cynadledda yn ystod y dydd, a'r prydau bwyd, yng ngwesty Nantyffin, Llandysilio, a'r oedfaon gyda'r nos ym Methel Mynachlog-ddu. Oedfa'r Llywydd fydd nos Lun am 7.00, pan drosglwyddir y llywyddiaeth i Eirian. Mae pob eglwys wedi cael ffurflen gofrestru, felly os dymuna rhywun o'r Cylch gofrestru, mae'n bosib trefnu gyda'r ysgrifenyddion.

Cylch Darllen

(Festri Noddfa am 10.30)

9 Ebrill - Efengyl Ioan, 18
Emlyn yn gwneud y paned

14 Mai - Actau 2

Janet yn gwneud y paned

Croeso i bawb

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i holl bobl ifainc yr eglwys sy wedi rhagori yn Eisteddfod Sir yr Urdd, a phob lwc hefyd i'r rhai sy'n mynd ymlaen i'r Genedlaethol.

Hefyd mae aelodau'r CFFI yn lleol wedi gwneud yn dda iawn yn ddiweddar, a'n hieuentid ni yn eu plith, felly llongyfarchiadau iddyn nhw hefyd.

Oedfaon swper

O hyn hyd y Pasg, oedfaon swper yr eglwys:
Yn yr Ysbryd, cydymgynull, cydfwyta, cydgofio'r Swper Olaf;
wrth y bwrdd, cydrannu a chyd-derbyn y bara a'r gwin.
Cydlawenhau, cyd-dystio, cyd-ddyheu, tyrd Arglwydd Iesu, Hal'lw-ia!

Noddfa, Llambod ar yr 8ed am 7
Brynhafod, Gorsgoch ar y 10ed am 6
Bethel, Silian ar y 13eg
Aberduar, Llanybydder ar y 15fed


Gweithgareddau eciwmennaidd

Gorymdaith Gwener y Groglieth ar ddydd Gwener 18ed o Ebrill. Amserlen i ddilyn ond yn arfer dechrau am 9.30 y bore y tu allan i Frondeifi.

Oedfa eciwmennaidd

O dan ofal pwyllgor Cymorth Cristnogol, ym Mrondeifi, am 7 ar y 22ain o Fai 2014.

Croeso i bawb.



Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Ebrill a Mai 2014

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

6 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Noddfa	4.30 y prynhawn	Oedfa ieuentid

13 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	

20 Ebrill - Sul y Pasg

Aberduar	9.30 y bore	
Noddfa	11.00 y bore	

27 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

4 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

11 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Rihysal Cymanfa Ganu
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

18 Mai

Aberduar	10.00 y bore	
Salem Caio	2.30 y prynhawn	Cymanfa Ganu

25 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Mr Stanley Evans
Bethel	10.15 y bore	Parchg Athro Densil Morgan - oedfa unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Parchg Dilwyn Jones oedfa unedig i Seion a Brynhafod

Rhaghysbys 1 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	<i>Mrs Dwynwen Teifi</i>
Noddfa	2.00 y prynhawn	<i>Oedfa gymun unedig</i> i <i>Noddfa, Caersalem a Bethel</i> <i>o dan ofal y</i> <i>Parchg Athro Hugh Matthews</i>

Cymanfa Ganu Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cofiwch am y Gymanfa Ganu hon a gynhelir am 2.30 ar brynhawn Sul y 18ed o Fai, dan arweiniad Mrs Ceinwen Evans Cwmann. Llywyddir ar y cyd gan Mrs Alwena Evans a Mr Alwyn Roberts, Noddfa, a bydd organyddion Cylch Caio yn cyfeilio. Yn unol â phenderfyniad y pwyllgor y llynedd, un oedfa fydd, a'r plant a'r oedolion yn cymryd rhan bob yn ail yn yr oedfa. A chofiwch hefyd am y Rihysal a gynhelir eleni yn Caersalem Parc y Rhos ar y 11eg o Fai am 2 y prynhawn, dan ofal Mr Emlyn Davies, Aberduar. Diolch i bawb am eu gwasanaeth ac am eu paratoadau.

Cyfarfod cyffredinol y Cylch

Mae'n arferol ein bod ni'n cynnal cyfarfod cyffredinol y Cylch, i drafod materion sy'n ymwneud ac yn effeithio ar bob un o'r eglwysi, ar ddechrau mis Mai yn flynyddol, felly cofiwch wrando, ddiagoniaid a swyddogion, am gyhoeddiadau pellach.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Blynyddol Aberduar nos Fercher 19eg o Fawrth pan daeth llond y festri ynghyd i brynu'r nwyddau amrywiol, ac i gefnogi'r noson. Llywyddwyd y gweithgareddau gan y gweinidog y Parchg Jill Tomos gan groesawu pawb yn gynnes i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr Eglwys. Gwahoddwyd Tina Wilson o Alltlyblacca, i agor yr Arwerthiant yn swyddogol. Mae Tina yn wreiddiol o Lamed. Roedd ei thad yn arfer rhedeg shop bwthchr yn Stryd y Coleg. Fe fuodd Tina yn gweithio gyda cylchgrawn Golwg cyn agor siop Trysor, drws nesaf lle roedd ei thad, ac yn hwyrach yn agor siop Trysor yn King St yn Caerfyrddin. Esboniodd Tina bod Aberduar yn agos iawn at ei chalon yn enwedig yn y Fynwent, lle mae ei theulu wedi cael eu claddu. Fel arwydd o werthfawrogiad, cyflwynodd Jill Tomos fasedg o flodau i Tina ar ran y Chwiorydd. Cafwyd noson hapus, a dymunol dros ben, ac elw ariannol sylweddol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd. Diolch i Tina am ei rhodd hael, ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau, i sicrhau llwyddiant y noson. Gwnaethpwyd £1,571 at y noson.

(Diolch i Hannilia am yr adroddiad)

Julia a James Henley, a Katie Grace

Daeth y newyddion da gan deulu'r Henleys bod Julia a James wedi derbyn galwad i fod yn weinidogion ar y cyd yn Eglwys y Bedyddwyr, Budleigh Salterton, yn Nyfnaint, gan ddechrau ym mis Gorffennaf eleni. Dymunwn fendith helaeth Duw arny'n nhw.

Oedfa radio 8 Mehefin: Daeth gwahoddiad i baratoi oedfa i'w darlledu ar Radio Cymru ar yr 8ed o Fehefin, sef y Sulgwyn, ac rwy'n gobeithio pwyso ar y rhai gafodd eu bedyddio yn eglwysi'r Cylch y llynedd i gymryd rhan. Gobeithiwn recordio un ai yn union cyn Eisteddfod yr Urdd neu yn syth wedi'r wythnos honno. Mwy i ddilyn!